# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## City & Guilds Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur Lefel 2



**Yn gryno**Yn dilyn ymlaen o gymhwyster Lefel 1, mae’r cwrs hwn yn cynnwys dau wahanol gymhwyser er mwyn datblygu eich sgiliau Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur yn bellach eto.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer…**…unrhyw un sy’n dilyn gyrfa neu’n diddori’n frwd mewn Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur.

**Cynnwys y cwrs**

Mae’r cwrs hwn yn cynnwys dau wahanol gymhwyster.

Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur – Modelu Parametrig

Yn cynnwys:

Braslunio cymhleth a chyfyngiadau 2D er mwyn creu nodweddion
Creu a golygu nodweddion gwaith a defnyddio gorchmynion nodweddion cymhleth
Creu ac addasu rhannau a chydosodiadau ar sail tablau
Defnyddio mudiant a chyfyngiadau cydosod gyredig

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ychwanegu gwybodaeth ychwanegol i gynllun dyluniad er mwyn cynorthwyo'r dehongliad o fwriad y cynllun
Creu arddangosfeydd rhannau a chydosodiadau o ansawdd cyflwyniad

Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Cynllunio 2D drwy Gymorth Cyfrifiadur

Mae'r cymhwyser hwn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o gynllunio 2D a'i egwyddorion o ran caledwedd, meddalwedd ac amgylchedd, gan gynnwys:

TG, caledwedd Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur a systemau gweithredu sylfaenol cysylltiedig
Elfennau allweddol meddalwedd gysylltiedig â chynllunio 2D
Technegau rheoli ffeiliau
Gorchmynion gweld a sefydlu'r gofod dylunio
Gorchmynion dylunio sylfaenol er mwyn cynhyrchu dyluniadau
Y system gydlynu er mwyn creu darluniau cywir
Trefnau ar gyfer llinellu, testun a dimensiynu syml
Trefnau sylfaenol ar gyfer golygu dyluniadau

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, cewch symud ymlaen un ai i gwrs Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur – Modelu Parametrig Lefel 3 City & Guilds neu Ddylunio 2D drwy Gymorth Cyfrifiadur Lefel 3 City & Guilds.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol ond bydd ennill cymhwyster Dyfarniad City & Guilds Lefel 1 mewn Modelu Parametrig CAD yn fan cychwyn da.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs hwn yn cynnig opsiwn dysgu agored hefyd.